

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (lle rhoddwyd rhybudd)

La Belle Skin & Beauty, Cwmbrân

Dyddiad yr arolygiad: 07 Tachwedd 2025

Dyddiad cyhoeddi: 07 Chwefror 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf.....	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol.....	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	17
4.	Y camau nesaf	19
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C – Cynllun gwella	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o La Belle Skin & Beauty ar 07 Tachwedd 2025.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan ddau arolygydd gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o wyth holiadur gan gleifion. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth yn 'dda iawn', gyda chleifion yn cadarnhau eu bod wedi cael gwybodaeth glir am driniaethau a'r risgiau a'r manteision.

Roedd y lleoliad yn darparu gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw yn ystod ymgynghoriadau ac roedd taflenni gwybodaeth ar gael.

Roedd y lleoliad yn lân ac yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas, gyda'r drysau'n cael eu cadw ar gau i sicrhau cyfrinachedd. Roedd ymgynghoriadau yn cynnwys gwiriadau cydsyniad ac roedd hanes meddygol y cleifion yn cael ei ddiweddarau ym mhob ymweliad.

Gwelsom fod polisi ar waith ar gyfer galluedd i gydsynio. Cawsom sicrwydd gan y staff fod yr opsiwn o gael hebryngwr yn cael ei drafod â'r cleifion; fodd bynnag, nid oedd polisi hebryngwyr ar waith ac nid oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos.

Roedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad a dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC nad oeddent wedi profi achos o wahaniaethu yn y lleoliad.

Gwelsom fod opsiynau adborth priodol ar gael i'r cleifion a oedd yn cael eu hadolygu yn rheolaidd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cyflwyno polisi hebryngwyr
- Cyflwyno polisi darparu gwybodaeth i gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gwybodaeth ar gael i'r cleifion am ffordd iach o fyw
- Roedd amrywiaeth o ffyrdd i'r cleifion roi adborth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y lleoliad yn lân, yn olau a'i fod wedi'i addurno i safon dda. Roedd camerâu diogelwch ar waith yn y lleoliad ac roedd arwyddion ar gael i roi gwybod amdanynt i'r cleifion.

Gwelsom fod asesiad risg tân priodol ar waith a bod y diffoddwyr tân a'r systemau larwm yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd ymarferion tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd. Nodwyd gennym fod yr asesiad risg iechyd a diogelwch yn sylfaenol a bod angen ei wella. Gwelsom fod profion offer cludadwy a phrofion gwifrau sefydlog pob pum mlynedd yn cael eu cynnal.

Roedd mesurau atal a rheoli heintiau ar waith, ac roedd cyfarpar diogelu personol ar gael yn hwylus ac amserlenni glanhau yn cael eu dilyn.

Gwelsom fod polisi diogelu ar waith; fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys manylion cyswllt lleol i ddechrau, a chawsant eu hychwanegu ar y diwrnod.

Gwelsom fod cyfarpar laser yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, bod tystysgrif gwasanaethu ar gael a bod contract ar waith gyda chynghorydd diogelu rhag laserau.

Gwelsom fod cofnodion y cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn unol â'r gofynion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen sicrhau bod y gadair ffabrig yn yr ystafell drin wedi'i gwneud o ddeunydd y gellir ei sychu
- Cynnal ymarferion tân rheolaidd
- Cynnal archwiliadau atal a rheoli heintiau

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cadw cofnodion yn effeithiol
- Amgylchedd glân sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda
- Trefniadau priodol ar gyfer storio a gwaredu gwastraff clinigol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gweithredir La Belle Skin & Beauty gan y rheolwr cofrestredig yn unig, a'r unigolyn hwn sy'n gweithredu'r peiriant laser hefyd. Gwelsom fod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar gael ac roedd tystysgrifau cofrestru AGIC i'w gweld yn y mynediad i'r lleoliad.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar gael mewn ffolder ddynodedig ac roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd polisi cwynion addas ar waith a oedd yn nodi cyfrifoldebau, amserlenni a llwybrau uwchgyfeirio.

Gwelsom fod cofnodion hyfforddiant yn dangos cydymffurfiaeth â'r gofynion gorfodol; fodd bynnag, nid oedd rhai tystysgrifau ar gael i ddechrau. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn yn ystod yr arolygiad. Gwelsom nad oedd system ar waith i fonitro hyfforddiant a gwnaethom argymhell i'r rheolwr cofrestredig y dylai roi matrices hyfforddiant ar waith.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi matrices hyfforddiant ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Adolygu polisïau yn rheolaidd
- Cynnwys gwybodaeth trydydd parti yn y polisi cwynion.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y lleoliad i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir yn y clinig. Cawsom gyfanswm o wyth holiadur wedi'u cwblhau. Ni wnaeth rhai cleifion ateb pob cwestiwn, a nododd pob un ohonynt eu bod wedi ymweld o fewn y ddeufis diwethaf. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir yn 'dda iawn'.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Gwybodus iawn, glân, cyfeillgar."

Diogelu a gwella iechyd

Dywedwyd wrthym fod y lleoliad yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn ystod y broses ymgynghori gyda chleifion. Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth wedi'i theilwra at anghenion y cleifion. Roedd taflenni hybu iechyd ar gael yn yr ystafell drin, ac roedd gwybodaeth ar gael am roi'r gorau i ysmegu, The Heart Foundation, y menopos ac acne.

Urddas a pharch

Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd yr aelod o staff yn gyfeillgar ac yn groesawgar.

Gwelsom un ystafell drin ar gyfer triniaethau laser, a oedd wedi'i lleoli ar y llawr cyntaf. Roedd yr ardaloedd i'r cleifion yn ymddangos yn lân ac yn drefnus.

Dywedwyd wrthym fod pob ymgynghoriad yn cael ei gwblhau yn yr ystafell drin a bod y drysau bob amser yn cael eu cadw ar gau wrth gynnal triniaethau er mwyn sicrhau preifatrwydd i'r cleifion. Nodwyd gennym nad oedd sgysiau yn gallu cael eu clywed gan eraill, sy'n sicrhau preifatrwydd i'r cleifion.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn trafod yr opsiwn o gael hebryngwr gyda'r cleifion ar lafar. Fodd bynnag, nid oedd arwyddion ar gael yn yr ystafell drin i hysbysu'r cleifion am yr opsiwn hwn. Gwnaethom argymhell i'r rheolwr cofrestredig y dylai arddangos posteri yn rhoi gwybod i'r cleifion am yr opsiwn o gael hebryngwr.

Gwelsom fod set o gyfarpar llygaid ychwanegol ar gael ar gyfer hebryngwr os oedd angen. Gwnaethom ofyn am gael gweld copi o'r polisi hebryngwyr; fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd polisi o'r fath ar waith yn y lleoliad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi polisi hebryngwyr addas ar waith.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Dywedwyd wrthym fod y triniaethau yn cael eu hesbonio'n llawn i'r cleifion yn ystod y cam ymgynghori a bod cydsyniad yn cael ei roi ym mhob apwyntiad, a hynny cyn y driniaeth. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr holl opsiynau triniaeth, a'r risgiau a'r manteision. Gwelsom fod polisi galluedd i gydsynio priodol ar waith yn y lleoliad.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar ddetholiad o gofnodion pum claf. Gwelsom fod ffurflen gydsynio ar gael ar gyfer pob un o'r pum claf, a oedd yn cael ei chadw yn ffeil y claf.

Gwelsom dystiolaeth bod hanesion meddygol yn cael eu gwirio a'u diweddarau yn ystod pob ymweliad. Dywedwyd wrthym fod risgiau a manteision triniaethau yn cael eu trafod â'r cleifion yn ystod eu hymgyngoriad ac roedd gwybodaeth bellach ar gael ar y ffurflen gydsynio.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod gwybodaeth i gleifion ar gael mewn print bras ar gais. Dywedwyd wrthym nad oes gan y lleoliad wefan a bod unrhyw wybodaeth yn cael ei rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol.

Gwelsom wybodaeth sylfaenol ym mholisiau a gweithdrefnau'r lleoliad yn nodi bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r cleifion; fodd bynnag, nid oedd polisi penodol o ran darparu gwybodaeth i gleifion.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi polisi darparu gwybodaeth i gleifion ar waith.

Cyfathrebu'n effeithiol

Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwnaethom ofyn am gael gweld copi o'r Datganiad o Ddiben. Cawsom gopi a dywedwyd wrthym ei fod ar gael ar bapur neu drwy e-bost ar gais. Wrth adolygu'r ddogfen, gwelsom ei bod yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.

Gwelsom dystiolaeth fod canllaw i gleifion a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael copi ohono pan fyddent yn dod am ymgynghoriad, a gwelsom daflenni ar y wal y tu allan i'r ystafell drin.

Dywedwyd wrthym nad oedd yr aelod o staff yn y clinig yn gallu siarad Cymraeg. Rhoddwyd sicrwydd i ni pe bai cleifion am siarad Cymraeg neu pe bai angen iddynt ddefnyddio unrhyw iaith arall, y byddai cyfieithydd yn cael ei drefnu.

Dywedwyd wrthym y gallai cleifion nad oedd ganddynt fynediad digidol ffonio'r lleoliad neu ddod i'r lleoliad i drefnu apwyntiad, ac y byddai unrhyw wybodaeth yn cael ei darparu iddynt ar ffurf papur.

Cynllunio a darparu gofal

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael ymgynghoriad llawn wyneb yn wyneb. Yn ystod yr ymgynghoriad, byddai cost y driniaeth, nifer y sesiynau y byddai eu hangen, y canlyniadau disgwyledig, a'r risgiau a'r manteision yn cael eu trafod ar lafar a'u nodi ar bapur. Gwelsom dystiolaeth fod profion croen yn cael eu cynnal a gwybodaeth am ffurflen hanes meddygol y cleifion. Dywedodd yr holl gleifion a atebodd yr holiadur eu bod wedi cael prawf croen cyn cael triniaeth newydd. Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion wedi rhoi cydsyniad cyn pob triniaeth a dywedodd yr holl gleifion a wnaeth ymateb i'r holiadur eu bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn y driniaeth.

Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth yn cael ei rhannu â'r cleifion ar lafar a'i darparu ar bapur. Roedd y cleifion yn cael gwybod am gost triniaethau ar lafar ac roedd rhestr prisiau yn cael ei darparu yn ystod ymgynghoriadau.

Gwelsom dystiolaeth o daflen wybodaeth am ôl-ofal a dywedwyd wrthym fod y daflen hon yn cael ei rhoi i'r cleifion ar ôl iddynt gael triniaeth. Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth am ôl-ofal yn cael ei rhoi ar lafar. Dywedodd pawb a ymatebodd i'r holiadur eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall eu hopsiynau triniaeth, a'r risgiau a'r manteision.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwnaethom ofyn am gael gweld copi o bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth y lleoliad. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd un ar gael; fodd bynnag, cafodd hyn ei ddatrys ar y diwrnod. Roedd yr holl wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn y polisi a ddarparwyd yn briodol i'r lleoliad. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn [Atodiad A](#).

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod pob un o'r cleifion sy'n mynychu'r lleoliad yn cael eu trin yn gyfartal, ac na fyddai unrhyw achos o wahaniaethu yn cael ei oddef. Dywedwyd wrthym fod hawliau cleifion trawsryweddol yn cael eu cynnal, a bod rhagenwau a ffefrir yn cael eu defnyddio a'u newid yng nghofnodion y cleifion ar gais.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu ei ddefnyddio.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Dywedwyd wrthym fod adborth yn cael ei gasglu drwy ap trefnu apwyntiad y lleoliad, bod y cleifion yn gallu gadael adolygiadau Google, a bod blwch adborth ar gael yn yr ystafell drin. Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig yn adolygu'r adborth yn rheolaidd ac yn gweithredu mewn ymateb iddo lle bo angen. Roedd y canllaw i gleifion yn cynnwys crynodeb o adborth cleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Gwelsom fod y lleoliad yn lân ac wedi'i addurno i safon dda. Roedd pob ardal yn olau ac yn edrych yn fodern. Roedd gan y lleoliad gamerâu diogelwch ar waith ac roedd hysbysiad yn rhoi gwybod i'r cleifion eu bod yn bresennol.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom dystiolaeth bod gan y lleoliad dystysgrif gosodiadau trydanol a gwblhawyd yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf a phrofion offer cludadwy a oedd wedi'u cwblhau yn 2022, gydag argymhelliad gan y trydanwr y dylid cynnal y profion nesaf yn 2026. Er nad yw'n ofynnol yn gyfreithiol, gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig y dylai ystyried cynnal profion offer cludadwy yn amlach, yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

Gwnaethom edrych ar y trefniadau diogelwch tân yn y lleoliad a gwelsom fod asesiad risg tân addas ar waith. Gwelsom dystiolaeth bod y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau ar gyfer y larymau tân a'r goleuadau argyfwng yn cael eu cynnal bob mis, gwnaethom argymhell y dylai'r lleoliad gwblhau profion amlach ar y larwm tân. Gwelsom fod arwyddion ar gyfer yr allanfa dân wedi'u gosod mewn mannau priodol ym mhob rhan o'r lleoliad. Nodwyd gennym nad oedd arwyddion 'dim ysmegu' i'w gweld, ac nad oedd cyfarwyddiadau i'w dilyn pe bai tân yn cael eu harddangos. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn ar ddiwrnod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn [Atodiad A](#). Nodwyd gennym hefyd nad oedd cofnodion i ddangos bod ymarferion tân yn cael eu cynnal. Darparwyd tystiolaeth o ymarfer tân yn fuan ar ôl yr arolygiad; fodd bynnag, nid oedd ymarferion yn cael eu cwblhau'n rheolaidd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff ymarferion tân eu cwblhau ddwywaith y flwyddyn.

Gwnaethom adolygu asesiad risg iechyd a diogelwch ar gyfer y lleoliad; fodd bynnag, roedd yn sylfaenol ac roedd gwybodaeth ar goll.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi asesiad risg iechyd a diogelwch cadarn ar waith.

Gwelsom dystiolaeth fod gan yr aelod o staff dystysgrif cymorth cyntaf a bod pecyn cymorth cyntaf ar gael yn hwylus, a bod dyddiadau defnyddio cyfredol ar bob eitem yn y pecyn hwnnw.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod yr ystafell drin ar gyfer triniaethau laser yn lân yr olwg; fodd bynnag, roedd llawer o eitemau yn cael eu harddangos ar gyfer triniaethau eraill y mae'r lleoliad yn eu darparu, ac roedd hyn yn gwneud i'r ystafell ymddangos yn anniben. Roedd y cyfarpar a'r rhan fwyaf o'r ddodrefn wedi'u gwneud o ddeunydd y gellid ei sychu'n hawdd ac roedd lefelau priodol o gyfarpar diogelu personol ar gael. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod un gadair ar wahân yn yr ystafell drin wedi'i gwneud o ddeunydd na ellid ei sychu.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl ddodrefn yn yr ystafell drin wedi'i wneud o ddeunydd y gellir ei sychu er mwyn sicrhau bod modd atal a rheoli heintiau yn effeithiol.

Cawsom gopïau o amserlenni glanhau dyddiol a oedd wedi'u cwblhau'n llawn ac yn cynnwys dyddiadau a llofnodion. Nodwyd gennym hefyd fod cyfleusterau golchi dwylo ar gael yn yr ystafell drin.

Gwelsom fod polisi atal a rheoli heintiau priodol ar waith a oedd wedi cael ei adolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwelsom fod polisi a chontract ar waith ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff yn ddiogel, a bod unrhyw wastraff a oedd yn aros i'w gasglu yn cael ei storio mewn cwpwrdd y gellir ei gloi.

Gwnaethom ofyn am weld copi o archwiliad atal a rheoli heintiau y lleoliad; fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd archwiliadau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi archwiliadau atal a rheoli heintiau ar waith i'w cwblhau yn rheolaidd.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i drin cleifion 18 oed a throsodd a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn cydymffurfio â hyn. Dywedwyd wrthym y gellid dod â phlant i lawr gwaelod y safle, ond na allent fynd i mewn i'r ystafell drin ar gyfer triniaethau laser.

Gwelsom dystiolaeth fod polisi chwythu'r chwiban a diogelu ar waith; fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer timau diogelu lleol. Cafodd hyn ei ddatrys ar ddiwrnod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn [Atodiad A](#).

Gwelsom fod gan y rheolwr cofrestredig ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar ei ffôn er mwyn sicrhau bod y polisiâu a'r gweithdrefnau yn cael eu cadw'n gyfredol.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod y peiriant laser yn y lleoliad yr un fath â'r un a oedd wedi'i gofrestru ag AGIC ac roedd tystiolaeth ei fod wedi cael ei galibradu a'i wasanaethu. Gwelsom dystiolaeth bod contract cyfredol ar waith gyda chynghorydd diogelu rhag laserau. Cynhaliwyd ymweliad diwethaf y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau â'r lleoliad ar 22 Hydref 2025, a darparodd adroddiad a oedd yn cynnwys rheolau lleol ac asesiadau risg. Cawsom hefyd gopi o'r protocolau meddygol priodol.

Roedd y rheolau lleol ar gael yn hwylus yn yr ystafell drin ac roeddent wedi'u llofnodi gan bob gweithredwr.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yr allwedd ar gyfer y peiriant laser yn cael ei dynnu pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio a'i storio'n ddiogel yn rhywle arall i ffwrdd oddi wrth y peiriant. Roedd arwydd ar ddrws yr ystafell drin yn rhoi gwybod i eraill bod peiriant laser yn cael ei ddefnyddio yn yr ystafell, ac roedd arwydd y gellir ei newid hefyd ar gael i ddangos pan oedd yn cael ei defnyddio.

Gwnaethom ofyn am gael gweld y sbectolau amddiffynnol a ddefnyddir gan y gweithredwyr a'r cleifion pan fydd triniaeth laser yn cael ei chynnal. Dangoswyd tair sbectol i ni i'w defnyddio gan y gweithredwr a'r hebryngwr, a gorchuddion llygaid blacowt a oedd yn cael eu defnyddio gyda chlytia llygaid cotwm ar gyfer y claf. Gwelsom fod pob pâr o sbectol mewn cyflwr da ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol. Dywedwyd wrthym fod y sbectolau yn cael eu harchwilio a'u glanhau cyn cael eu defnyddio; roedd y wybodaeth hon wedi'i chynnwys ar y taflenni cofnodi glanhau dyddiol.

Dywedwyd wrthym fod gwiriadau sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal ar y peiriant laser, er enghraifft, i wirio'r lens cyn ei ddefnyddio. Roedd y rhain hefyd yn cael eu cofnodi ar yr amserlen glanhau ddyddiol.

Roedd pob aelod o'r staff a oedd yn gweithredu'r peiriant laser wedi cwblhau hyfforddiant ar gyfer y peiriant penodol. Gwelsom dystiolaeth yng nghofnodion y cleifion fod gwiriadau cyn triniaeth yn cael eu cynnal fel prawf croen 48 awr cyn y driniaeth ac asesiad o'r croen gan ddefnyddio graddfa Fitzpatrick.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwnaethom ofyn am weld tystiolaeth o weithgareddau gwella ansawdd a gynhaliwyd gan y lleoliad. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod adolygiadau yn cael eu monitro'n rheolaidd i sicrhau ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, a bod cwynion hefyd yn cael eu monitro. Darparwyd enghreifftiau lle gwnaed addasiadau i wella ansawdd y gwasanaeth.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod cofnodion y cleifion yn cael eu cadw ar bapur a bod manylion apwyntiadau'n cael eu cadw'n ddigidol. Roedd yr holl gofnodion papur yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cwpwrdd dan glo ac roedd apwyntiadau digidol yn cael eu cadw ar system ddiogel. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym na fu'n rhaid gwaredu cofnodion cleifion eto; fodd bynnag, roedd yn gallu disgrifio'r broses ar gyfer gwaredu cofnodion, gan gynnwys cyfnodau cadw data.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf a gwelsom fod yr holl wybodaeth yn bresennol ac yn ddarllenadwy. Darparwyd cofrestr triniaethau i ni a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth; fodd bynnag, nid oedd yn nodi enw'r cyfarpar na'r math o gyfarpar a ddefnyddir. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn ar ddiwrnod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth a hyn yn [Atodiad A](#).

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd La Belle Skin & Beauty yn cael ei redeg gan y rheolwr cofrestredig, a oedd hefyd yn berchen arno, ac nid oedd unrhyw aelodau eraill o staff. Y rheolwr cofrestredig oedd unig weithredwr y peiriant laser.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom dystiolaeth o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y lleoliad. Nodwyd gennym fod tystysgrifau cofrestru AGIC y lleoliad ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg wrth y fynedfa.

Gwelsom ffolder rheoli polisiâu a gweithdrefnau addas, ac roedd pob polisi yn cael ei adolygu unwaith y flwyddyn.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod polisi cwynion addas ar waith. Roedd yn cynnwys manylion yr unigolyn cyfrifol a'r amserlenni ar gyfer cydnabod cwynion. Roedd manylion cyswllt ar gyfer AGIC a Cyngor ar Bopeth ar gael pe bai claf yn teimlo na ellid dod o hyd i ddatrysiad. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd unrhyw gwynion ffurfiol wedi dod i law. Dywedwyd wrthym fod cwynion llafar a chwynion ysgrifenedig yn cael eu dogfennu mewn llyfryn cwynion dynodedig.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gan mai'r rheolwr cofrestredig yw perchennog ac unig aelod o staff y lleoliad laser, nid oedd unrhyw bolisi recriwtio ar waith. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd ganddi unrhyw fwriad i gyflogi staff yn y dyfodol. Gwelsom dystiolaeth o wriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar lefel briodol.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwnaethom ofyn am gael gweld cofnodion hyfforddiant y staff. Darparwyd manylion hyfforddiant cyfredol ar gyfer craidd gwybodaeth, hyfforddiant ar gyfer cyfarpar laser penodol a chymorth cyntaf. Nid oedd dystiolaeth ar gael ar gyfer diogelu, diogelwch tân ac atal a rheoli heintiau. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn ar ddiwrnod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth a hyn yn [Atodiad A](#).

Nodwyd gennym hefyd nad oedd hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, iechyd a diogelwch yn y gwaith a llywodraethu gwybodaeth wedi'i gwblhau. Er nad yw'r hyfforddiant hwn yn orfodol, gwnaethom argymhell y dylai'r aelod o staff yn y lleoliad gwblhau'r hyfforddiant hwn i gryfhau ei gwybodaeth.

Ni welsom system ar waith i fonitro hyfforddiant yn effeithiol. Gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig roi matrices hyfforddiant ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn y dyfodol .

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gael.	Gallai hyn arwain at brofiad gwael i'r cleifion ac achosion posibl o wahaniaethu.	Codwyd y mater gyda'r rheolwr cofrestredig.	Rhoddodd y rheolwr cofrestredig bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith.
Nodwyd gennym nad oedd arwyddion 'dim ysmegu' ar gael ac nad oedd unrhyw gyfarwyddiadau i'w dilyn pe bai tân.	Gallai cleifion ysmegu ar y safle, sy'n peri risg o dân a niwed i eraill. Efallai na fyddai'r cleifion yn ymwybodol o'r broses i'w dilyn pe bai tân.	Codwyd y mater gyda'r rheolwr cofrestredig.	Archebodd y rheolwr cofrestredig arwyddion ar ddiwrnod yr arolygiad a darparwyd lluniau yn fuan yn dilyn yr arolygiad yn dangos bod yr arwyddion wedi cael eu gosod.
Nid oedd y polisi diogelu yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol	Ni fyddai'r staff yn gwybod gyda phwy i gysylltu pe bai ganddynt bryder diogelu, gan oedi'r	Codwyd y mater gyda'r rheolwr cofrestredig.	Ychwanegodd y rheolwr cofrestredig y wybodaeth ofynnol i'r polisi diogelu.

	broses adrodd ac achosi risg bosibl i unigolyn.		
Nid oedd y gofrestr cleifion yn cynnwys enw'r cyfarpar na'r math o gyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio.	Roedd risg bosibl i barhad gofal pe bai peiriant gwahanol yn cael ei ddefnyddio gyda gosodiadau gwahanol, gan beri risg i'r cleifion.	Codwyd y mater gyda'r rheolwr cofrestredig.	Rhoddodd y rheolwr cofrestredig gofrestr cleifion newydd ar waith ar y diwrnod a oedd yn cynnwys enw'r cyfarpar a'r math o gyfarpar a ddefnyddir.
Nid oedd tystiolaeth ar gael ar gyfer diogelu, diogelwch tân ac atal a rheoli heintiau.	Mae gwybodaeth heb ei diweddarau peri risg i'r cleifion y bydd gweithdrefnau anghywir yn cael eu dilyn.	Codwyd y mater gyda'r rheolwr cofrestredig.	Rhoddodd y rheolwr cofrestredig dystiolaeth ei bod wedi cwblhau hyfforddiant yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: La Belle Skin & Beauty

Dyddiad yr arolygiad: 07/11/2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: La Belle Skin & Beauty

Dyddiad yr arolygiad: 07/11/2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Gwnaethom ofyn am gael gweld copi o'r polisi hebryngwyr; fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd polisi o'r fath ar waith yn y lleoliad.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi polisi hebryngwyr addas ar waith.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 9 (1)	Wedi'i ddarparu	Rebekah	Wedi'i gwblhau
2. Nid oedd polisi penodol ar gyfer darparu gwybodaeth i gleifion.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi polisi darparu gwybodaeth i gleifion ar waith.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 9 (1)	Wedi'i ddarparu	Rebekah	Wedi'i gwblhau
3. Nodwyd gennym hefyd nad oedd cofnodion i ddangos bod ymarferion tân yn cael eu cynnal. Darparwyd	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff ymarferion tân eu cwblhau ddwywaith y flwyddyn.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 26 (4)(d)	Tystiolaeth wedi'i darparu a chaiff ymarferion rheolaidd eu cynnal bob mis	Rebekah	Wedi'i gwblhau

	tystiolaeth o ymarfer tân yn fuan ar ôl yr arolygiad; fodd bynnag, nid oedd ymarferion yn cael eu cwblhau'n rheolaidd.					
4.	Gwnaethom adolygu asesiad risg iechyd a diogelwch ar gyfer y lleoliad; fodd bynnag, roedd yn sylfaenol ac roedd gwybodaeth ar goll.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi asesiad risg iechyd a diogelwch cadarn ar waith.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 19(1)(b)	Tystiolaeth wedi'i darparu	Rebekah	Wedi'i gwblhau
5.	Nodwyd gennym fod un gadair ar wahân yn yr ystafell drin wedi'i gwneud o ddeunydd na ellir ei sychu.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl ddodrefn yn yr ystafell drin wedi'i wneud o ddeunydd y gellir ei sychu er mwyn sicrhau bod modd atal a rheoli heintiau yn effeithiol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) Rheoliad 26 (2)(a)	Mae'r gadair wedi'i newid i blastig	Rebekah	Wedi'i gwblhau
6.	Gwnaethom ofyn am weld copi o archwiliad atal a rheoli heintiau y lleoliad; fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd archwiliadau atal	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi archwiliadau atal a rheoli heintiau ar waith i'w cwblhau yn rheolaidd.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) Rheoliad 19(1)(a)	Wedi'i ddarparu	Rebekah	Wedi'i gwblhau

a rheoli heintiau yn cael eu cynnal.					
--------------------------------------	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Rebekah Hennah

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 17 Rhagfyr 2025